Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# CYNLLUN GWEITHREDU YMGYSYLLTU Â CHYNALIADWYEDD

# 2025-2030

**Sefydliad sy'n barod ar gyfer y dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac arfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**

## CYNNWYS

CYNNWYS ........................................................ 2
1. Cyflwyniad ........................................................ 3
2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030. ........................ 5
3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol ........................................................ 6
4. Pwysigrwydd ymgysylltu ........................................................ 7
5. Ymgysylltu â Dysgwyr Anhraddodiadol ac Amrywiol ........................................................ 8
6. Fframwaith Ymgysylltu ........................................................ 9
7. Mapio rhanddeiliaid ........................................................ 10
8. Gweithgareddau ac Amcanion Ymgysylltu ........................................................ 11
9. Sianeli Cyfathrebu ........................................................ 14
10. Cyllid ac Adnoddau ........................................................ 15
11. Targedau CAMPUS ........................................................ 16
12. Monitro ac Adrodd ........................................................ 17
13. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill ........................................................ 18

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd hwn yn cefnogi cyflawni Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth hirdymor a blaenoriaethau strategol y Brifysgol ar gyfer cynaliadwyedd, tra bod y Cynllun Gweithredu hwn yn amlinellu'r gweithgareddau ymgysylltu penodol a'r mentrau newid ymddygiad sydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r strategaeth ar draws PCYDDS.




O fewn y strategaeth, nodir Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Diwylliant ym Mlaenoriaeth Strategol 5, gydag amcan clir:

> "Meithrin diwylliant o gynaliadwyedd drwy ymgysylltu gweithredol â myfyrwyr, staff a chymunedau lleol – gan adeiladu ymwybyddiaeth, llunio ymddygiadau, a grymuso ymddygiadau sy'n effro i'r hinsawdd a grymuso newid."

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, meithrin gallu, a galluogi staff, myfyrwyr, partneriaid a chymunedau i gyfrannu'n weithredol at uchelgeisiau'r Brifysgol o ran cynaliadwyedd a lleihau carbon.

Yr ymrwymiadau o fewn Blaenoriaeth Strategol 5 yw:

- Ymgysylltu gan fyfyrwyr, staff a chymunedau lleol mewn mentrau cynaliadwy
- Gweithredu fel model rôl ymgysylltiol ar gyfer cynaliadwyedd yn ein rhanbarthau o fewn y sector addysg drydyddol
- Hyrwyddo diwylliant o gydraddoldeb, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol o fewn ymdrechion cynaliadwyedd
- Datblygu diwylliant ar draws prosesau cynllunio Grŵp PCYDDS er mwyn ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r cynllun hwn yn cysylltu â Nod Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig 13 a 17.




Fel sefydliad yng Nghymru, mae dull y Brifysgol o ymgysylltu â chynaliadwyedd hefyd yn cael ei lunio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau a gweithio tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Drwy'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd hwn, bydd y Brifysgol yn cefnogi uchelgais y Ddeddf i greu Cymru fwy ffyniannus, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang drwy sicrhau ymgysylltu gan staff, myfyrwyr, partneriaid a chymunedau lleol mewn mentrau cynaliadwyedd sy'n hyrwyddo llesiant amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor.

Bydd gweithgareddau ymgysylltu'n adlewyrchu'r pum ffordd o weithio a sefydlwyd o dan y Ddeddf fel a ganlyn:

- Meddwl yn y tymor hir am effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol ein gweithredoedd

- Gweithio ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol
- Cynnwys staff, myfyrwyr a chymunedau wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynaliadwyedd
- Integreiddio cynaliadwyedd ar draws addysg, gweithrediadau a bywyd campws
- Atal niwed amgylcheddol trwy fentrau ymwybyddiaeth a newid ymddygiad

Trwy'r dull hwn, nod PCYDDS yw gweithredu fel partner rhanbarthol cyfrifol, gan gefnogi datblygu cynaliadwy ar draws y cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.


Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in English and Welsh

## 2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030.

Mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd hwn yn cefnogi Gweledigaeth Cynaliadwyedd Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030 drwy ddarparu gweithgarwch ymgysylltu a newid ymddygiad ar draws y tri philer sefydliadol: Ein Pobl, Ein Diben a'n Lle.

**EIN POBL:** Trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, hyfforddiant, digwyddiadau a chyfleoedd cyfranogi, byddwn yn grymuso staff, myfyrwyr a phartneriaid i gyfrannu'n weithredol at uchelgeisiau cynaliadwyedd y Brifysgol, gan feithrin diwylliant o gyfrifoldeb a rennir ac ymddygiad sy'n effro i'r hinsawdd.

**EIN DIBEN:** Trwy gefnogi ymgysylltu academaidd, mentrau dan arweiniad myfyrwyr a gweithgareddau addysg cynaliadwyedd, bydd y cynllun hwn yn helpu i ymgorffori cynaliadwyedd o fewn dysgu ac addysgu, gan gryfhau datblygiad sgiliau gwyrdd a galluogi dysgwyr i ymgysylltu â heriau cynaliadwyedd yn y byd go iawn.

**EIN LLE:** Bydd ein campysau a'n hystâd ehangach yn gweithredu fel llwyfannau ar gyfer ymgysylltu, gan ddangos arferion cynaliadwy a galluogi staff, myfyrwyr a chymunedau i gymryd rhan mewn mentrau cynaliadwyedd ymarferol fel gwella bioamrywiaeth, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynni a rhaglenni teithio cynaliadwy.

Mae cyflawni Blaenoriaeth Strategol 5 – Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Diwylliant yn gofyn am weithgarwch cydgysylltiedig ar draws sawl Blaenoriaeth Strategol o fewn y Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol:

- Blaenoriaeth Strategol 2 – Addysg a Chyflogadwyedd
- Blaenoriaeth Strategol 3 – Ystâd Gynaliadwy
- Blaenoriaeth Strategol 5 – Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Diwylliant
- Blaenoriaeth Strategol 6 – Monitro ac Adrodd

Felly, nid yw ymgysylltu’n weithgaredd sy’n sefyll ar ei phen ei hun ond rhaid ei hystyried yn hanfodol i alluogi uchelgeisiau cynaliadwyedd PCYDDS, gan gefnogi'r newid ymddygiad, y trawsnewid diwylliannol a’r cyfranogiad gan randdeiliaid sy'n ofynnol i gyflawni cynnydd ystyrlon ar draws pob maes o'r Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol.


Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in English and Welsh

## 3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu llwyddiannus yn unol â Chynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 2023/24


- Ymgymerwyd ag ymgysylltu sylweddol yn ystod Arddangosfa Gynaliadwyedd Wythnos y Glas, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddeddfwriaeth wastraff mewn neuaddau prifysgolion.
- Cymryd rhan mewn 'Diwrnod dim cwpanau tafladwy' i leihau nifer y cwpanau untro sy'n cael eu defnyddio a hyrwyddo cwpanau y gellir eu hailddefnyddio
- Traddodwyd darlithoedd i fyfyrwyr ar Systemau Rheoli Amgylcheddol, Bioamrywiaeth a Chynaliadwyedd y Brifysgol.









## 4. Pwysigrwydd ymgysylltu

Mae cyflawni uchelgeisiau cynaliadwyedd y Brifysgol yn gofyn am gyfranogiad ystyrlon gan staff, myfyrwyr, contractwyr a phartneriaid.

Mae datblygiadau technolegol wedi cynyddu'r dulliau ymgysylltu yn sylweddol, ond bydd pob rhanddeiliad ac unigolyn yn ymateb i'r dulliau hyn yn wahanol, pawb â'u hoff ddewis a rhaid deall hynny. Er mwyn ymgysylltu â'r gynulleidfa ehangaf posibl ac i gyflawni'r effaith fwyaf, mae'n debygol y bydd angen dulliau lluosog, ar-lein ac yn bersonol, gan olygu heriau o ran adnoddau ar gyfer unrhyw raglen lwyddiannus.

Mae gweithredoedd unigol wir yn gwneud gwahaniaeth, wrth yrru polisi a newid uwch, ynghyd â lleihau'r risg o newid hinsawdd ei hun. Yn 2020 cyfrifodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) fod 43% o'r toriadau i sero-net y DU yn gofyn am gyfuniad o dechnolegau carbon isel a newid ymddygiad (gosod pympiau gwres, newid i geir trydan ac ati) gydag 16% arall yn dod o newidiadau cymdeithasol neu ymddygiad yn unig.[1]

Mae ein targedau a nodwyd yn Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 a'r Cynlluniau Rheoli cysylltiedig yn bosibl dim os ceir ymgysylltu ar draws y staff, myfyrwyr, contractwyr a chymunedau lleol. Am y rheswm hwn, mae PCYDDS yn rhoi pwyslais cryf ar ymwybyddiaeth, cyfranogiad a chyfrifoldeb a rennir.

[1] Adroddiad Cynnydd i'r Senedd 2020

## 5. Ymgysylltu â Dysgwyr Anhraddodiadol ac Amrywiol

Rhaid i ymgysylltu gael ei deilwra i'r sefydliad a'r unigolion y mae'n ceisio eu cyrraedd. Nid yw ymgysylltu â chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn eithriad. Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ledled y Brifysgol i ddeall ac ymateb i newidiadau o fewn y boblogaeth fyfyrwyr a'r strwythur sefydliadol ehangach, gan gydnabod bod cyd-destun PCYDDS yn wahanol mewn sawl agwedd i sefydliadau eraill yn y sector.

Mae Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol yn tynnu sylw at ddemograffeg staff a myfyrwyr ac yn darparu mewnwelediad pwysig ar gyfer llunio gweithgareddau ymgysylltu. Dengys adroddiadau diweddar bod mwy na hanner y gymuned fyfyrwyr dros 25 oed. Felly, rhaid i ddulliau ymgysylltu adlewyrchu anghenion a disgwyliadau dysgwyr aeddfed, tra'n parhau i gefnogi a chynnwys myfyrwyr iau. Rhaid ystyried strwythur daearyddol wasgaredig y Brifysgol hefyd, ochr yn ochr â gwahanol anghenion dysgwyr ar y campws, cymudwyr a dysgwyr o bell.

Felly, rhaid i weithgareddau ymgysylltu adlewyrchu amrywiaeth a strwythur cymuned PCYDDS tra'n parhau i ymateb i newidiadau yn y dyfodol. Bydd ymgysylltu â chynaliadwyedd yn blaenoriaethu cyfathrebu digidol hygyrch, cyfleoedd hyblyg ar gyfer cyfranogi, ac integreiddio o fewn addysgu, dysgu ac arfer proffesiynol. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr aeddfed, dysgwyr o bell, myfyrwyr rhyngwladol, a'r rhai sy'n dychwelyd i addysg i gyd yn gallu ymgysylltu'n ystyrlon ag agenda cynaliadwyedd y Brifysgol. Trwy gydnabod yr ystod eang o lwybrau i addysg uwch, nod PCYDDS yw sicrhau bod mentrau cynaliadwyedd yn parhau i fod yn gynhwysol, yn berthnasol ac yn hygyrch i ehangder llawn ei chymuned fyfyrwyr.



## 6. Fframwaith Ymgysylltu

Mae Rhaglen Ymgysylltu Cynaliadwyedd PCYDDS wedi'i strwythuro o amgylch tair lefel o gyfranogiad:

- **Ymwybyddiaeth**
  Sicrhau bod staff, myfyrwyr a phartneriaid yn deall ymrwymiadau, targedau a chynnydd cynaliadwyedd y Brifysgol.
- **Cyfranogiad**
  Darparu cyfleoedd i unigolion a thimau gymryd rhan mewn gweithgareddau cynaliadwyedd fel ymgyrchoedd, gwirfoddoli, a mentrau newid ymddygiad.
- **Arweinyddiaeth**
  Grymuso staff a myfyrwyr i arwain mentrau cynaliadwyedd, datblygu prosiectau, a dylanwadu ar wneud penderfyniadau yn eu hadrannau a'u cymunedau.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ymgysylltu’n symud ymlaen y tu hwnt i gyfathrebu tuag at newid ymddygiad ystyrlon a thrawsnewid diwylliannol.

Mae egwyddorion newid ymddygiad yn sail i lawer o'r gweithgareddau yn y Cynllun Rheoli hwn. Caiff ymgyrchoedd eu cynllunio i wneud dewisiadau cynaliadwy yn weladwy, yn hygyrch ac yn gymdeithasol normal o fewn cymuned y Brifysgol, gan ddefnyddio dylanwad cyfoedion, atgyfnerthu cadarnhaol a chanllawiau ymarferol i gefnogi newid diwylliannol hirdymor.

## 7. Mapio rhanddeiliaid

Mae'n bwysig bod ein staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr undebau llafur yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu ein polisïau, ein strategaethau a'n cynlluniau rheoli yn barhaus.

| Grŵp Rhanddeiliaid | Dull Ymgysylltu |
|---|---|
| **Myfyrwyr** | • Ymgysylltu yn ystod yr Wythnos Groeso<br>• Cyfleoedd gwirfoddoli<br>• Digwyddiadau Diffodd Popeth<br>• Prosiectau labordy byw / prosiectau academaidd<br>• Rhaglenni Interniaid Academaidd<br>• Casgliadau bwyd |
| **Staff Academaidd** | • Integreiddio'r cwricwlwm<br>• Darlithoedd Gwadd<br>• Cydweithio ar ymchwil<br>• Hyfforddiant ar lythrennedd carbon<br>• Gwobrau Gŵn Gwyrdd |
| **Gwasanaethau Proffesiynol** | • Hyfforddiant ar lythrennedd carbon<br>• Ymgyrchoedd ymgysylltu gweithredol<br>• Gwobrau Gŵn Gwyrdd |
| **Contractwyr a Chyflenwyr** | • Digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr<br>• Gofynion cynaliadwyedd caffael |
| **Cymunedau lleol** | • Digwyddiadau cymunedol<br>• Prosiectau bioamrywiaeth<br>• Gweithgareddau cenhadaeth ddinesig<br>• Cwpwrdd Cymunedol |
| **Partneriaid Sector** | • Rhwydweithiau EAUC<br>• Partneriaethau ymchwil<br>• Prosiectau cydweithredol |

**Arweinyddiaeth Myfyrwyr a Chyd-greu**

Mae myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio diwylliant cynaliadwyedd y Brifysgol. Bydd y Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr a rhaglenni academaidd i wneud y canlynol:

- Cynnwys myfyrwyr yng Ngrŵp Llywio Cynaliadwyedd y Brifysgol
- Darparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, interniaethau a lleoliadau
- Annog hyrwyddwyr cynaliadwyedd
- Cydnabod cyflawniadau drwy'r Gwobrau Gŵn Gwyrdd

## 8. Gweithgareddau ac Amcanion Ymgysylltu

| Maes | Cynulleidfa Darged | Dyddiad / Amlder | Trosolwg a Neges Allweddol i'w Chyfathrebu |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu Academaidd** | Staff Academaidd | Yn flynyddol | Bydd tîm cynaliadwyedd PCYDDS yn gweithio gyda staff academaidd i wella cwricwlwm cyrsiau drwy gyflwyno sesiynau ar astudiaethau achos o fywyd go iawn mewn prifysgol.<br>Gall hyn gynnwys:<br>- Sesiynau EMS i L6 Rheolaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd<br>- Sesiynau bioamrywiaeth i L6 Cymunedau Trefol Cynaliadwy<br>- "Cynaliadwyedd a..." darlithoedd mewn Twristiaeth, Celf Gain, Addysg Awyr Agored a meysydd pwnc eraill.<br>- Ymgysylltu â phrosiectau cynaliadwyedd ac ymchwil<br>- Adnabod a chefnogi cyfleoedd Labordy Byw |
| **Diwrnod Teithio Llesol** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr | Tymor y Gwanwyn | Mae Grŵp PCYDDS wedi ymrwymo i gefnogi teithio llesol. Diwrnod yn hyrwyddo teithio llesol, gan gyflwyno hyfforddiant beicio a gweithdai cynnal a chadw.<br>- Lleihau allyriadau carbon cymudo<br>- Hyrwyddo ffordd iachach o fyw<br>- Cysylltiadau â'r Siartrau Teithio Iach |
| **Mannau rhandir** | Holl Staff Caerfyrddin<br>Holl Fyfyrwyr Caerfyrddin<br>Cymuned leol Caerfyrddin | Parhaus | Mae gan gampws Caerfyrddin nifer o fannau rhandir sy'n agored i'w defnyddio gan Staff, Myfyrwyr a'r gymuned leol o amgylch ardal Caerfyrddin.<br>- Hyrwyddo ffordd iachach o fyw a llesiant<br>- Cefnogi'r gymuned leol |
| **Diffodd Popeth** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr | Bob tymor: Bwriedir cynnal digwyddiad Diffodd Popeth o leiaf bob tymor | Mae'r digwyddiad hwn yn golygu gweithio gyda staff a myfyrwyr i gynnal digwyddiadau Diffodd Popeth ar gampysau'r Brifysgol i hyrwyddo arbed ynni a lleihau gwastraff.<br>- Ymrwymiad Grŵp PCYDDS i arbed ynni a lleihau gwastraff.<br>- Cyfleoedd i wirfoddoli<br>- Enghreifftiau y gellir eu defnyddio mewn bywyd bob dydd. |
| **Casgliadau bwyd** | Holl Fyfyrwyr<br>Staff Llety | Diwedd pob tymor | Gweithio gyda myfyrwyr sy'n gadael llety yn yr haf i gasglu bwyd diangen i'w roi i fanciau bwyd lleol, ac eitemau diangen i'w hychwanegu at lyfrgell pethau'r brifysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - Lleihau gwastraff bwyd<br>- Ailddefnyddio offer<br>- Cefnogi'r gymuned leol |
| **Wythnos y Glas - Arddangosfa Cynaliadwyedd** | Myfyrwyr Newydd:<br>Myfyrwyr sy'n Dychwelyd | Yn flynyddol ym mis Medi | Bydd y tîm cynaliadwyedd yn bresennol yn nigwyddiadau Wythnos Groeso UM ac yn bresenoldeb gweithredol ar y campws yn ystod yr wythnos.<br>Ymrwymiad Grŵp PCYDDS i ymgorffori cynaliadwyedd ar draws y campws, y cwricwlwm, y diwylliant a'r gymuned.<br>Cyngor i fyfyrwyr ar sut i fod yn gynaliadwy mewn neuaddau ac ar y campws<br>Ymgysylltu â myfyrwyr ynghylch cyfleoedd y gallant fod yn rhan ohonynt |
| **Gwobrau Gŵn Gwyrdd** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr<br>Sector Addysg Uwch | Yn flynyddol:<br>Ceisiadau ym mis Ebrill<br>Seremoni Wobrwyo ym mis Tachwedd / Rhagfyr | Sefydlwyd Gwobrau'r Gŵn Gwyrdd gan yr EUAC ac maent yn cydnabod y mentrau cynaliadwyedd eithriadol a weithredir gan brifysgolion a cholegau ar draws y byd.<br>- Gall y gwobrau hyn ddathlu ymrwymiad Grŵp PCYDDS i ymgorffori cynaliadwyedd ar draws y campws, y cwricwlwm, y diwylliant a'r gymuned. |
| **Tymor Gwresogi** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr | Hydref - Mawrth | Gweithio gyda staff a myfyrwyr ynglŷn â gwresogi ystâd PCYDDS i addysgu defnyddwyr yr adeilad ynghylch y polisi gwresogi.<br>Ymrwymiad i leihau gwresogi gwastraff |
| **Hyfforddiant Staff** | Holl Staff | O leiaf ddwywaith y flwyddyn | Gan weithio gydag Academi Sgiliau Gwyrdd Coleg Sir Gâr a Chanolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru PCYDDS, bydd grŵp PCYDDS yn dangos ei ymrwymiad i hyfforddiant amgylcheddol drwy ymchwilio i gyrsiau achrededig i staff bob blwyddyn. |
| **Plannu gan Fyfyrwyr** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr | Hydref | Bydd  tîm Tiroedd PCYDDS yn cynnig sesiynau plannu dan oruchwyliaeth gyda staff a myfyrwyr.<br>Ymrwymiad i wella bioamrywiaeth ar y campws<br>Datblygu sgiliau garddio staff a myfyrwyr |
| **Arolwg Teithio Cynaliadwy** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr | Yn flynyddol:<br>Tachwedd | Mae Grŵp PCYDDS wedi ymrwymo i gefnogi teithio llesol. Diwrnod yn hyrwyddo teithio llesol, gan gyflwyno hyfforddiant beicio a gweithdai cynnal a chadw.<br>- Lleihau allyriadau carbon cymudo<br>- Hyrwyddo ffordd iachach o fyw<br>- Cysylltiadau â'r Siartrau Teithio Iach |
| **Ymgysylltu â Chyflenwyr PCYDDS** | Holl Staff<br>Holl Fyfyrwyr | Parhaus | Mae Grŵp PCYDDS wedi ymrwymo i ymgysylltu â'i gadwyn gyflenwi i leihau ei allyriadau cwmpas 3. Felly, bydd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr gyda chontractwyr craidd i geisio lleihau allyriadau yn y gadwyn gyflenwi. |

## 9. Sianeli Cyfathrebu

Bydd gweithgareddau ymgysylltu'n cael eu cyflwyno drwy gyfuniad o sianeli cyfathrebu digidol, wyneb yn wyneb a chwricwlwm i sicrhau bod negeseuon cynaliadwyedd yn cyrraedd staff, myfyrwyr a chydweithwyr ledled PCYDDS.

Bydd sianeli cyfathrebu allweddol yn cynnwys:

- Mewnrwyd y Brifysgol a bwletinau staff
- Llwyfannau cyfathrebu myfyrwyr a MyDay
- Sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Arwyddion digidol ar draws campysau
- Gweithdai, digwyddiadau ac ymgyrchoedd
- Ymgysylltu â'r cwricwlwm a darlithoedd gwadd
- Adrodd ynghylch cynaliadwyedd a dangosfyrddau
- Gwefan gynaliadwyedd

Fel sefydliad aml-gampws sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr, mae PCYDDS yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu mewn ffyrdd sy'n gyson ar draws y sefydliad ac yn ymatebol i gymunedau campysau lleol.

I gefnogi hyn:

- Bydd negeseuon, ymgyrchoedd a chyfathrebu cynaliadwyedd craidd yn cael eu cydlynu'n ganolog gan Dîm Cynaliadwyedd PCYDDS i sicrhau aliniad â'r Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol.
- Bydd gweithgareddau ymgysylltu'n cael eu cynnal yn lleol lle bo hynny'n briodol, gan weithio gyda thimau campws, adrannau academaidd a gwasanaethau proffesiynol i sicrhau bod mentrau'n adlewyrchu nodweddion penodol pob lleoliad.
- Bydd sianeli cyfathrebu digidol yn sicrhau negeseuon cyson ar draws pob campws, tra bydd digwyddiadau a gweithgareddau personol yn cael eu teilwra i gyfleoedd a blaenoriaethau lleol.
- Bydd cydweithio ar draws campysau'n cael ei annog i rannu arfer da a sicrhau y gellir ailadrodd mentrau llwyddiannus ar draws y PCYDDS.

Mae'r dull hwn yn galluogi'r Brifysgol i gynnal naratif cynaliadwyedd sefydliadol, cydgysylltiedig tra'n cefnogi ymgysylltiad seiliedig ar leoedd ar draws y cymunedau amrywiol y mae PCYDDS yn gweithredu ynddynt.

## 10. Cyllid ac Adnoddau

Deellir bod gweithgareddau ymgysylltu’n gofyn am fuddsoddiad o gyllid ac adnoddau i fod yn llwyddiannus. Cefnogir y gweithgaredd hwn drwy ddyraniadau cyllideb blynyddol o fewn cyllideb y tîm Cynaliadwyedd, sy'n cynnwys:

- Cyrsiau Hyfforddi ISEP – Darperir y cyrsiau hyn drwy gyllid PLA gan academi Sgiliau Gwyrdd Coleg Sir Gâr. Mae'r cyllid hwn i gefnogi cyflwyno hyfforddiant cyrsiau.
- Prosiectau cynaliadwyedd dan arweiniad myfyrwyr – Mae hyn yn cael ei ddyrannu ar y cyd ag Undeb Myfyrwyr PCYDDS. Mae'r gronfa gynaliadwyedd yn cefnogi myfyrwyr i gyflawni prosiectau unigryw a chyffrous sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, gan gydnabod bod ymgysylltiad myfyrwyr yn hanfodol i wella datblygu cynaliadwy yn barhaus.
- Gweithgareddau ymgysylltu ac ymwybyddiaeth – I gyflwyno gweithgareddau fel gweithdai a hyfforddiant, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, cymorth interniaeth a chyflwyno wythnos groeso.


Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in English and Welsh

## 11. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, mae'r targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn cael eu cadw yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, mecanwaith adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r cynllun hwn a thargedau Datgarboneiddio Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Maent yn cynrychioli cymysgedd o strategaethau ymgysylltu i sicrhau dull systematig o ymgysylltu â chynaliadwyedd.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:
https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD_SMART_Targets.xlsx

## 12. Monitro ac Adrodd

Bydd y Cynllun Rheoli Ymgysylltu â Chynaliadwyedd yn cael ei gyflwyno gan Dîm Cynaliadwyedd PCYDDS mewn cydweithrediad ag adrannau academaidd, gwasanaethau proffesiynol, Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid allanol.

Bydd monitro perfformiad yn dod o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Flaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd y goruchwylio’n dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:

**Goruchwylio Gweithredol**

- Pennaeth Cynaliadwyedd a’r Amgylchedd
- Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
- Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
- Adroddiadau KPI blynyddol

**Goruchwylio Llywodraethu**

- Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
- Cyngor y Brifysgol

**Sicrwydd Allanol**

- System Reoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
- Canlyniadau People and Planet
- Archwiliad allanol blynyddol

Bydd cynnydd yn cael ei:

- Adrodd yn flynyddol trwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
- Integreiddio i ddangosfyrddau KPI sefydliadol
- Alinio lle bo'n briodol â fframweithiau cydnabyddedig

## 13. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn rhan o'r fframwaith llywodraethu cynaliadwyedd ehangach yn PCYDDS. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r strategaethau ategol a'r cynlluniau rheoli canlynol:

- Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd y Grŵp 25-30
- Cynllun Rheoli Carbon 25-30
- Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Ynni 25-30
- Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
- Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
- Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

### Awdur(on) y polisi:

**Dan Priddy** **Teitl Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a’r Amgylchedd.

## Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

| Rhif Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i**:** AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi**:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David